Tribiwnlys Addysg Cymru | Education Tribunal for Wales

## Cais am newid mewn apêl neu hawliad

**Rhaid eich bod wedi ymgynghori â'r parti arall cyn cyflwyno'r cais i'r Tribiwnlys**
(os nad ydych wedi gwneud hynny, byddwn yn anfon eich cais yn ôl)

Enw'r Plentyn/Person Ifanc

Rhif yr Apêl/Hawliad

TMath o apêl/hawliad

Awdurdod lleol neu gorff cyfrifol

Dyddiad gwrandawiad terfynol

☐☐/☐☐/☐☐☐☐

Dyddiad ymateb awdurdod lleol neu gorff cyfrifol

☐☐/☐☐/☐☐☐☐

☐ Ticiwch y blwch yma os yw eich gwrandawiad wedi'i ohirio yn y gorffennol

---

**Ein nod yw ymdrin â phob cais o fewn 15 diwrnod gwaith i'w dderbyn.**

Gweler y canllawiau isod sy'n esbonio'r ceisiadau y gellir eu gwneud.

Rwyf am wneud cais i'r Tribiwnlys am:

- ☐ Estyniad amser i gydymffurfio â chyfarwyddyd
- ☐ Gwŷs tyst
- ☐ Methiant i gydymffurfio â chyfarwyddyd
- ☐ Arall *Nodwch isod*
- ☐ Newid dyddiad gwrandawiad terfynol
- ☐ Caniatâd i newid apêl/ymateb
- ☐ Caniatâd i ddod â thyst ychwanegol
- ☐ Arsylwr i ddod i'r gwrandawiad

Y rhesymau am y cais yw:

(Os ydych am i'r tribiwnlys newid y dyddiadau sydd wedi'u nodi ar gyfer gwneud unrhyw beth, nodwch y dyddiadau a'r amser rydych chi ei angen i gydymffurfio â'r cyfarwyddyd).

*Os oes angen, dylech barhau ar daflen ar wahan.*

Rhaid i chi gynnwys ymateb y parti arall i'ch cais yma

Llofnod

Enw

Dyddiad

__ __ / __ __ / __ __ __ __

Cais gan: ☐ Rhiant/plentyn/PI ☐ Cynrychiolydd rhiant/plentyn/PI ☐ Corff Cyfrifol (Mewn hawliad gwahaniaethu ar sail anabledd)

☐ Awdurdod Lleol ☐ Cynrychiolydd Awdurdod Lleol

☐ Cynrychiolydd Corff Cyfrifol

---

**Canllawiau**

Mae'r canllawiau hyn wedi'u darparu i hysbysu partïon am y drefn gywir ar gyfer gofyn am newidiadau mewn apêl neu hawliad a wnaed i TAC.

**Estyniad o amser i ymateb i gyfarwyddyd**

Gallwch ofyn i'r Tribiwnlys ymestyn yr amser i ymateb i gyfarwyddyd. Rhaid i chi gysylltu â'r parti arall cyn gwneud cais. Rhaid cynnwys eu safbwynt hwy ar y newid rydych yn ei gynnig yn eich cais. Bydd angen i chi ddweud wrth Tribiwnlys erbyn pa ddyddiad y gallwch gydymffurfio. Dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y bydd y Tribiwnlys roi estyniad amser.

**Newid i ddyddiad y gwrandawiad terfynol**

Os ydych am i ddyddiad y gwrandawiad terfynol gael ei newid, rhaid i chi ofyn i'r parti arall a ydynt yn cytuno i'r newid hwnnw a chynnwys eu sylwadau yn eich cais. Dim ond os yw’r ddau barti yn cytuno neu os oes amgylchiadau eithriadol sy'n gofyn am y newid y bydd y Tribiwnlys yn newid dyddiad y gwrandawiad. Ni fydd y Tribiwnlys fel arfer yn caniatáu gohirio gwrandawiad a dylech ystyried dyddiadau sy'n gynharach na dyddiad presennol y gwrandawiad.

**Gwŷs tyst**

Os ydych wedi gofyn i'ch tyst fynychu'r gwrandawiad a'i fod yn gwrthod, rhaid i chi weld a oes ffordd arall o gyflwyno ei dystiolaeth yn yr apêl, megis cyflwyno datganiad tyst neu adroddiad ganddynt. Os nad oes modd arall o gyflwyno'r dystiolaeth, neu eich bod angen iddynt fynychu’r gwrandawiad yn ogystal â chyflwyno’u hadroddiad neu ddatganiad er mwyn eu cwestiynu, yna gellir gwneud cais am wŷs tyst. Dylai'r cais egluro pa ymdrechion sydd wedi cael eu gwneud i sicrhau eu presenoldeb, os ydynt wedi gwrthod mynychu a pham nad oes modd arall o gyflwyno'r dystiolaeth. Rhaid i'r cais nodi enw llawn, galwedigaeth a chyfeiriad y tyst.

**Caniatâd i newid sail apêl/ymateb i'r apêl**

Gall y naill barti neu'r llall ofyn i'r Tribiwnlys ddiwygio'r seiliau ar unrhyw adeg yn y broses apelio e.e. drwy newid y diwygiadau a geisiwyd i ddatganiad/Cynllun Datblygu Unigol neu'r lleoliad addysg. Mae rhybudd cynnar i'r parti arall o'ch bwriad i newid y sail yn hanfodol, a dylai'r cais egluro'r rhesymau dros y newidiadau.

**Methiant i gydymffurfio â chyfarwyddyd y Tribiwnlys**

Gellir gwneud cais i gael penderfyniad ar yr apêl neu gynnal gwrandawiad heb i’r parti arall gymryd rhan os nad ydynt wedi cydymffurfio â chyfarwyddyd y tribiwnlys. Yna gall y parti wneud cais i gael ei

adfer drwy wneud cais am adfer ac egluro'r rhesymau dros fethu â chydymffurfio â'r cyfarwyddyd neu'r rhesymau pam y credant y dylent barhau i gael cymryd rhan.

**Caniatâd i ychwanegu tystion ychwanegol**
Mae'r Tribiwnlys yn gosod cyfyngiad ar nifer y tystion i sicrhau ei fod yn ymdrin â'r apêl neu'r hawliad mewn modd effeithlon a chymesur. Mae dau dyst yn cael eu caniatáu i bob parti mewn achosion AAA neu ADY. Caniateir dau dyst i bob parti mewn hawliadau Gwahaniaethu ar Sail Anabledd. Mewn amgylchiadau eithriadol, gall partïon ofyn am dystion ychwanegol, ond ni fydd y Tribiwnlys ond yn rhoi caniatâd os oes angen eu presenoldeb a bod y dystiolaeth yn berthnasol i'r penderfyniad y bydd y Tribiwnlys yn ei wneud. Mae'r Tribiwnlys hefyd yn ystyried yr holl ddogfennau a anfonir i mewn gan y partïon, **a dylai eich holl dystion ddarparu datganiad ysgrifenedig yn nodi eu tystiolaeth.**

**Arsylwr i ddod i'r gwrandawiad**
Gall y naill barti neu'r llall wneud cais i arsylwr ddod i'r gwrandawiad. Gan fod pob gwrandawiad yn breifat, bydd angen i barti wneud cais am ganiatâd i ddod ag arsylwr ac egluro pam fod angen eu presenoldeb. Os rhoddir caniatâd, ni all yr arsylwr gymryd unrhyw ran yn y gwrandawiad, na chymryd nodiadau, dim ond arsylwi'r gwrandawiad.

**Arall**
Os ydych am wneud unrhyw gais arall, llenwch yr adran hon, gan esbonio'ch cais a'r rhesymau am ei wneud.

**Beth i'w wneud nesaf**
Rhaid i chi anfon copi o'ch ffurflen (sy'n cynnwys sylwadau'r parti arall ar eich cais) ac unrhyw ddogfennau atodol, ar yr un pryd i:

- y tribiwnlys; a
- y parti arall

**Os na fyddwch yn gwneud hynny, byddwn yn anfon eich cais yn ôl heb ei ystyried.**

**Polisi Preifatrwydd**

Mae ein polisi preifatrwydd ar gael i'w weld ar ein gwefan ar y dudalen ganlynol:
https://tribiwnlysaddysg.llyw.cymru/polisi-preifatrwydd